

## **Adolygiad cyflym o strategaethau i gefnogi dysgu a llesiant ymhlith dysgwyr 16-19 oed sydd wedi cael amhariad sylweddol ar eu haddysg o ganlyniad i'r pandemig COVID-19**

**Rhif adroddiad – RR00044 (Gorffennaf 2022)**

### **CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU**

#### **Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym**

Mae'r pandemig COVID-19 wedi amharu'n sylweddol ar addysg ar bob lefel, yn enwedig disgyblion o grwpiau dan anfantais ac agored i niwed. Mae myfyrwyr 16-19 oed mewn amser tyngedfennol yn eu bywydau wrth iddynt bontio i astudiaeth bellach neu gyflogaeth. Mae'r pandemig wedi dod â set unigryw o amodau at ei gilydd, sy'n amharu ar addysg ac sydd hefyd yn amharu ar feysydd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol ac emosiynol bywydau pobl ifanc a'u teuluoedd. Bu'r adolygiad cyflym hwn yn archwilio strategaethau i gefnogi dysgu a llesiant ymhlith dysgwyr 16-19 oed sydd mewn addysg amser llawn yn y coleg neu'r ysgol ac sydd wedi gweld bylchau sylweddol yn eu haddysg o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

#### **Beth ydy Adolygiad Cyflym?**

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth er mwyn hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon ond eto bob amser rhoi sylw i duedd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau cyflym ac adrodd arnynt, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, tynnu data, arfarnu beirniadol a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau allweddol mewn ymchwil.

#### **Diweddariad yw'r adolygiad hwn o adolygiad blaenorol a gynhaliwyd ym mis [Awst 2021](#).**

Chwiliwyd llenyddiaeth ar 15/08/21, 26/09/21 a 22/06/22. Defnyddiwyd offeryn AMSTAR-2 i asesu ansawdd yr adolygiadau systematig a gynhwyswyd a defnyddiwyd offeryn RaPeer i asesu adolygiadau cyflym a gynhwyswyd.

#### **Darganfyddiadau Allweddol**

##### *Graddau'r sylfaen dystiolaeth*

- 14 adolygiad systematig (naw ohonynt yn cynnwys meta-ddadansoddiad), pedwar adolygiad cyflym, un adroddiad protocol a phum adroddiad sefydliadol y DU a nodwyd o'r chwiliadau cychwynnol ym mis Awst 2021

- Dau adolygiad systematig (dau ohonynt yn cynnwys meta-ddadansoddiad), un asesiad cyflym o dystiolaeth a dau adroddiad sefydliadol a nodwyd trwy'r diweddariad ym mis Mehefin 2022

*Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth*

- Roedd adolygiadau wedi'u cyhoeddi yn 2016-2022, a dim ond un oedd yn rhoi sylw i dystiolaeth ar ôl COVID

*Tystiolaeth o effeithiolrwydd o'r chwiliad cychwynnol ym mis Awst 2021*

- Nid oedd yna **unrhyw dystiolaeth adolygu systematig uniongyrchol** a oedd yn gwerthuso strategaethau i gefnogi dysgu ar gyfer dysgwyr **16-19 oed ar ôl y pandemig COVID-19**.
- Roedd *tystiolaeth cyn COVID* ar gyfer nifer o ddulliau'n dangos effaith bositif i ddysgwyr 3-18 oed i'w galluogi i wneud cynnydd yn eu dysgu. Yn eu plith oedd: **cefnogaeth ychwanegol gan diwtor** (un-i-un, gwersi mewn grwpiau bach, mentora, cefnogaeth gan gymheiriaid); **oriau gwersi ychwanegol** (ymestyn y diwrnod addysgu, neu ymyriadau yn ystod gwyliau ysgol); **metaymwybyddiaeth a hunanreoli; a gwersi mathemateg a Saesneg ychwanegol**.
- Darganfuwyd bod **ysgoloriaethau, cymorth ariannol a gwybodaeth am golegau** wedi helpu dysgwyr a oedd â photensial uchel ond a oedd ar incwm isel i symud ymlaen i addysg uwch yn UDA.
- Roedd y dystiolaeth yn dangos **dim budd o dynnu myfyrwyr allan o wersi craidd** ar gyfer gwersi Saesneg ychwanegol ac nid oedd yna unrhyw dystiolaeth a oedd yn gwerthuso cefnogaeth tiwtor ychwanegol i'r grŵp cyfan a chefnogaeth tiwtor ychwanegol ar-lein.
- Ni ddaethpwyd o hyd i **dystiolaeth adolygu systematig uniongyrchol** ar gyfer gwerthuso **llesiant dysgwyr 16-19 oed** yn gysylltiedig â'r pandemig COVID-19.
- Roedd *tystiolaeth cyn COVID* yn dangos bod **sgrinio a llwybrau atgyfeirio effeithiol** at driniaeth glinigol o fudd wrth wella llesiant myfyrwyr yn achos y rheini sydd yn eu harddegau hwyrach a'r rheini mewn colegau chweched dosbarth; a bod **cwrsela, gweithgarwch corfforol ac ymyriadau sydd â'r nod o wella cwsg** o fudd wrth wella llesiant myfyrwyr ar draws pob cyfnod allweddol. Hefyd, mae **ymyriadau ymwybyddiaeth ofalgar** yn llwyddiannus wrth wella llesiant i amrywiaeth eang o ddysgwyr, yn enwedig mewn **addysg ôl-uwchradd**.
- Roedd y dystiolaeth y daethpwyd o hyd iddi yn gymysg ar gyfer rhaglenni atal seiliedig ar therapi a dysgu cymdeithasol ac emosiynol, ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth ar gyfer gwerthuso cefnogaeth y teulu a ffrindiau.

*Tystiolaeth o effeithiolrwydd o'r diweddariad ym mis Mehefin 2022 (adroddiad blaenorol [Awst 2021](#))*

- Mae ymchwil cyn COVID ac asesiad cyflym o dystiolaeth yn ymwneud â'r pandemig COVID-19 fel ei gilydd wedi dod i'r casgliad bod tiwtora dwys, a thwtora un-i-un neu mewn grŵp bach dan arweiniad athrawon yn gallu cael effaith bositif ar adferiad dysgu.

- Gwnaeth tystiolaeth cyn COVID a thystiolaeth yn ymwneud â'r pandemig COVID-19 ddangos bod ailadrodd blwyddyn ysgol yn cael effaith negyddol ar gynnydd dysgu.

### **Goblygiadau i Bolisi**

- Daw tystiolaeth ar gyfer strategaethau i gefnogi dysgu a llesiant dysgwyr 16-19 oed sydd wedi cael amhariad sylweddol ar eu haddysg o **astudiaethau a gynhaliwyd cyn y pandemig COVID-19**.
- Mae angen ymchwil i werthuso a fydd ymyriadau a oedd yn llwyddiannus mewn amgylchiadau gymharol "normal" yn llwyddiannus yn ystod / ar ôl pandemig.
- Er mai eithaf prin yw'r dystiolaeth i gefnogi hyn, mae sicrhau bod **gweithgarwch cefnogi'n targedu** dysgwyr o'r **cefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwyaf amddifad** yn cael effaith bositif sylweddol ar eu cynnydd.

### **Cryfder y Dystiolaeth**

Roedd yr arfarniad o fwyafrif yr astudiaethau a gynhwyswyd yn dangos bod y dystiolaeth (adolygu) o '**ansawdd isel iawn**'